# Sling crogi crothol gan ddefnyddio rhwyll (yn cynnwys sacrohysteropecsi) i drwsio llithriad y groth

28 Mehefin 2017

Mae'r driniaeth hon yn gweithio'n dda ar gyfer llithriad y groth ond gall fod cymhlethdodau difrifol, yn cynnwys poen cyson neu'r rhwyll yn treulio'r bledren.

Mae llithriad y groth yn digwydd pan fydd y groth (wterws) yn llithro i lawr o'i safle arferol i mewn i'r fagina. Mae sling crogi crothol gan ddefnyddio rhwyll yn cynnwys cysylltu un pen o'r rhwyll â rhan isaf y groth neu'r serfics. Caiff y pen arall ei gysylltu â'r asgwrn ar waelod yr asgwrn cefn neu â ligament yn y pelfis. Mae'r driniaeth hon yn codi'r groth ac yn ei dal yn ei safle arferol. Gellir gwneud y driniaeth drwy lawdriniaeth agored yn yr abdomen neu drwy lawdriniaeth twll clo. Y nod yw cynnal y groth.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

**A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-2573-5

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights